This is a bilingual email containing important information about a statutory consultation.
Please scroll down for the English version.

Dydd Mercher 19 Ebrill 2023

Prosiect Gwynt Alltraeth Mona (y "Prosiect")

HYSBYSIAD YN UNOL AG ADRAN 46 'DYLETSWYDD I HYSBYSU'R YSGRIFENNYDD GWLADOL AM GAIS ARFAETHEDIG' O DDEDDF CYNLLUNIO 2008

Ysgrifennaf ar ran Mona Offshore Wind Limited (yr "Ymgeisydd") mewn cysylltiad â Phrosiect Gwynt Alltraeth Mona. Mae'r Ymgeisydd yn fenter ar y cyd rhwng bp Alternative Energy Investments Ltd ac Energie Baden-Württemberg AG.

Yn unol ag adran 46 o Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Ddeddf"), rhoddir isod yr wybodaeth ofynnol fel y'i darperir i ymgyngoreion rhagnodedig i gydymffurfio ag adran 42 o'r Ddeddf, mewn perthynas â'r Ymgeisydd a'r Prosiect arfaethedig.

Mae'r Prosiect yn cynnwys fferm wynt ar y môr arfaethedig wedi'i lleoli yn nwyrain Môr Iwerddon. Disgwylir i'r fferm wynt gynnwys hyd at 107 o eneraduron tyrbinau gwynt a seilwaith cysylltiedig ar y môr ac ar y tir i gysylltu'r generaduron tyrbinau gwynt â'i gilydd ac â'r grid cenedlaethol. Disgwylir i'r Prosiect fod â chapasiti gosodedig o tua 1.5 gigawat (GW) a bydd wedi'i leoli tua 28km o arfordir Ynys Môn, tua 40km o arfordir gogledd orllewin Lloegr, a thua 42km o Ynys Manaw. Bydd y Prosiect yn helpu i ddarparu swm sylweddol o ynni gwynt ar y môr, i gefnogi targed Sero Net Llywodraeth y DU erbyn 2050 a'r ymrwymiad i ddarparu hyd at 50GW o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030.

Bydd generaduron tyrbinau gwynt a llwyfannau is-orsafoedd ar y môr yn cael eu lleoli ar safle'r fferm wynt alltraeth. Bydd y generaduron tyrbinau gwynt a'r llwyfannau is-orsafoedd alltraeth yn cael eu cysylltu â'i gilydd trwy geblau rhyng-arae a cheblau rhyng-gysylltu a byddant yn cael eu gosod ar wely'r môr gyda strwythurau sylfaen.

Bydd y trydan a gynhyrchir gan y generaduron tyrbinau gwynt yn cael ei gludo i'r grid cenedlaethol drwy geblau tanddaearol o dan y môr a'r tir. Bydd y ceblau'n cyrraedd y tir i'r gorllewin o Bensarn ac i'r dwyrain o Landdulas yng Nghonwy ac yn cysylltu'r

Prosiect ag is-orsaf bresennol y National Grid ym Modelwyddan, Sir Ddinbych drwy is-orsaf y Prosiect ar y tir. Mae cyfarwyddyd adran 35 wedi'i ddarparu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, sy'n pennu'r Prosiect fel datblygiad y mae angen cydsyniad datblygu ar ei gyfer.

Bydd y cais arfaethedig yn ceisio pwerau i'r Ymgeisydd adeiladu, gweithredu a chynnal a datgomisiynu'r Prosiect. Bydd y cais DCO hefyd yn cynnwys:

- Adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu'r Prosiect;
- Cymhwyso a/neu ddatgymhwyso deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect; a
- Darpariaethau, caniatadau neu gydsyniadau pellach fel sy'n angenrheidiol a/neu'n gyfleus gan gynnwys trwydded forol dybiedig.

Mae'r llythyr hwn yn ffurfio hysbysiad yr Ymgeisydd i'r Ysgrifennydd Gwladol o'r Cais arfaethedig yn unol ag adran 46 'Dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am gais arfaethedig' o'r Ddeddf.

Mae adran 42 'Dyletswydd i ymgynghori' o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpar ymgeiswyr am Orchmynion Cydsyniad Datblygu ymgynghori ar eu cais arfaethedig â'r personau hynny a nodir yn y Ddeddf ac mewn rheoliadau a wneir yn unol â'r Ddeddf.

Bydd yr Ymgeisydd yn dechrau ymgynghori yn unol ag adran 42 drwy anfon e-bost (y 'Llythyr Ymgynghori') ynghyd â dogfennau ymgynghori (y 'Dogfennau Ymgynghori' – gweler y dolenni isod) i'r personau a nodir yn DC 2008 ac mewn rheoliadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf ar neu o gwmpas 19 Ebrill 2023.

Cyhoeddwyd hysbysiad yn unol ag adran 48 'Dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd' y Ddeddf yn genedlaethol yn The Guardian a'r London Gazette ar 12 Ebrill 2023 yn ogystal â Fishing News a Lloyd's List ar 19 Ebrill 2023. Yn lleol, cyhoeddwyd hysbysiad yn unol ag adran 48 yn The Daily Post (Cymraeg a Saesneg) a'r Isle of Man Courier (Saesneg yn unig) am ddwy wythnos yn olynol ar 12 a 19 Ebrill 2023, ochr yn ochr â Golwg (Cymraeg yn unig) am ddwy wythnos yn olynol ar 13 a 20 Ebrill 2023.

Mae'r Prosiect yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ("EIA") at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (EIA) 2017. Felly rydym yn ymgynghori ar gynnwys yr EIA, gan gynnwys yr effeithiau amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â'r Prosiect. Mae'r wybodaeth hon yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) –

bydd dolen gwefan yn cael ei darparu i ymgyngoreion at ddibenion cydymffurfio ag adran 42 o'r Ddeddf.

Y dyddiad cau a nodir yn yr ohebiaeth ymgynghori (ac yn yr Hysbysiad adran 48) ar gyfer derbyn sylwadau a chynrychiolaethau ar y Cais arfaethedig yw 23:59 ar 4 Mehefin 2023.

Mae'r Dogfennau Ymgynghori sydd i'w darparu i'r personau a nodir yn y Ddeddf, a'r rheoliadau a wneir yn unol â'r Deddf wedi'u cynnwys ar ddolen lawrlwytho sy'n cyd-fynd â'r Llythyr Ymgynghori ac yn cynnwys:

- Llyfryn yr Ymgynghoriad Statudol, sy'n amlinellu'r Prosiect, gweithgareddau ymgynghori ac yn crynhoi'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR).
- Ffurflen Adborth Ymgynghoriad Statudol, sy'n darparu dull strwythuredig i ymgyngoreion roi eu hadborth.
- Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ("SoCC"), sy'n nodi sut y bydd yr Ymgeisydd yn ymgynghori â chymunedau lleol yn ystod ymgynghoriad statudol yr Ymgeisydd.
- Poster Ymgynghoriad Statudol, sy'n esbonio sut y gall pobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, mynychu digwyddiad a rhoi adborth.
- Copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 48 o Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheoliad 13 o'r Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017.
- PEIR, sy'n manylu ar effeithiau amgylcheddol posibl y prosiect.
- Crynodeb Annhechnegol y PEIR, sy'n crynhoi pwyntiau allweddol y PEIR mewn modd mwy cryno.
- Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft.

Mae'r eitemau uchod, ynghyd â chopi o lythyr adran 42 yr Ymgeisydd a hysbysiad adran 47, hefyd i'w gweld ar wefan y Prosiect a roddir isod am gyfnod yr ymgynghoriad o leiaf.

Darperir dolenni i'r holl ddogfennau uchod i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr hysbysiad hwn, yn unol â gofynion adran 46 o Ddeddf Cynllunio 2008. Maent i gyd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol eu gweld, o dan ofal yr Arolygiaeth Gynllunio, trwy gyfrwng y ddolen hon: www.morganandmona.com.

Bydd copïau wedi’u hargraffu o’r Llyfryn Ymgynghori Statudol, Ffurflen Adborth Ymgynghori Statudol, Crynodeb Annhechnegol PEIR (“NTS”) a’r SoCC, ar gael i’w gweld drwy gydol yr ymgynghoriad yn y lleoliadau cyfeirio a restrir isod:

| Lleoliad cyfeirio | Amseroedd agor* |
|---|---|
| Llyfrgell Amlwch<br>Lôn Parys<br>Amlwch<br>Ynys Môn<br>LL68 9EA | Dydd Sul-Dydd Llun: AR GAU<br>Dydd Mawrth: 9:30am-12:30pm, 2pm-5pm<br>Dydd Mercher: 9:30am-12:30pm<br>Dydd Iau: 2pm-7pm<br>Dydd Gwener: 9:30am-12:30pm<br>Dydd Sadwrn: 9:30am-12:30pm |
| Llyfrgell y Rhyl<br>Stryd yr Eglwys<br>Y Rhyl<br>LL18 3AA | Dydd Llun: 9:30am-6pm<br>Dydd Mawrth – Dydd Gwener: 9:30am-5pm<br>Dydd Sadwrn: 9:30am-12:30pm<br>Dydd Sul: AR GAU |
| Llyfrgell Llandudno<br>Stryd Mostyn<br>Llandudno<br>LL30 2RP | Dydd Llun – Dydd Mercher: 9am-5:30pm<br>Dydd Iau: 10am-7pm<br>Dydd Gwener: 9am-5:30pm<br>Dydd Sadwrn: 9:30am-3pm<br>Dydd Sul: AR GAU |
| Llyfrgell Gyhoeddus Bangor<br>Ffordd Gwynedd<br>Bangor<br>LL57 1DT | Dydd Llun – Dydd Mawrth: 9:30am-6:30pm<br>Dydd Mercher – Dydd Gwener: 9:30am-5pm<br>Dydd Sadwrn: 9:30am-1pm<br>Dydd Sul: AR GAU |
| Llyfrgell Henry Bloom Noble<br>Cyngor Bwrdeistref Douglas<br>8 Duke Street<br>Douglas<br>Ynys Manaw<br>IM1 2AY | Dydd Llun – Dydd Mercher: 8:30am-5pm<br>Dydd Iau: 10am-7pm<br>Dydd Gwener: 8:30am-5pm<br>Dydd Sadwrn: 9am-4pm<br>Dydd Sul: AR GAU |
| Llyfrgell Ramsey<br>Neuadd y Dref<br>Parliament Square<br>Ramsey<br>Ynys Manaw<br>IM8 1RT | Dydd Llun – Dydd Iau: 9am-4:30pm<br>Dydd Gwener: 9am-4:00pm<br>Dydd Sadwrn: 9am-4:30pm<br>Dydd Sul: AR GAU |

* Mae’r amseroedd agor ar gyfer y lleoliadau hyn yn gywir adeg eu cyhoeddi. Cadarnhewch fod yr amseroedd a restrir yn dal yn gywir, os ydych chi’n bwriadu ymweld.

Hefyd yn atodedig er gwybodaeth mae copi enghreifftiol o'r e-bost i'w anfon at ymgyngoreion o dan adran 42 o'r Ddeddf.

Edrychaf ymlaen at gael cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o gais arfaethedig yr

Ymgeisydd yn unol ag adran 46 'Dyletswydd i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am gais arfaethedig' o'r Ddeddf. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â mi yn: info@monaoffshorewind.com.

Yr eiddoch yn gywir
Richard Haydock
Cyfarwyddwr Prosiect
Mona Offshore Wind Limited

---

Wednesday 19 April 2023

Mona Offshore Wind Project (the "Project")

NOTIFICATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 46 'DUTY TO NOTIFY SECRETARY OF STATE OF PROPOSED APPLICATION' OF THE PLANNING ACT 2008

I write on behalf of Mona Offshore Wind Limited (the "Applicant") in connection with the Mona Offshore Wind Project. The Applicant is a joint venture between bp Alternative Energy Investments Ltd and Energie Baden-Württemberg AG.

In accordance with section 46 of the Planning Act 2008 ("the Act"), detailed below is the required information as supplied to prescribed consultees complying with section 42 of the Act, in relation to the Applicant and the proposed Project.

The Project consists of a proposed offshore wind farm located in the east Irish Sea. The wind farm is expected to comprise up to 107 wind turbine generators and associated offshore and onshore infrastructure to connect the wind turbine generators to each other and to the national grid. The Project is expected to have an installed capacity of approximately 1.5 gigawatts (GW) and will be located approximately 28km from the Anglesey coastline, approximately 40km from the north west coast of England, and approximately 42km from the Isle of Man. The offshore wind farm will form a key contribution to the UK's target of generating 50GW of power from offshore wind by 2030.

Wind turbine generators and offshore substation platforms will be located within the

offshore wind farm site. The wind turbine generators and offshore substation platforms will be connected to each other via interarray and interconnector cables and will be fixed to the seabed with foundation structures.

The electricity generated by the wind turbine generators will be transported to the national grid via underground offshore and onshore cables. The cables will make landfall to the west of Pensarn and east of Llanddulas in Conwy and connect the Project to the existing National Grid substation at Bodelwyddan, Denbighshire via the Project's onshore substation. A section 35 direction has been provided by the Secretary of State, which determines the Project as a development for which development consent is required.

The proposed application will seek powers for the Applicant to construct, operate and maintain and decommission the Project. The DCO application will also cover:

- The construction, operation, maintenance and decommissioning of the Project;
- The application and/or disapplication of legislation relevant to the Project; and
- Further provisions, permissions or consents as are necessary and/or convenient including a deemed marine licence.

This letter forms the Applicant's notification to the Secretary of State of the proposed Application pursuant to section 46 'Duty to notify Secretary of State of proposed application' of the Act.

Section 42 'Duty to consult' of the Act requires prospective applicants for DCOs to consult on their proposed application with those persons specified in the Act and in regulations made pursuant to the Act.

The Applicant will commence consultation pursuant to section 42 by issuing an email (the 'Consultation Letter') accompanied by consultation documents (the 'Consultation Documents' – see links below) to the persons specified in the PA 2008 and in regulations made pursuant to the Act on or around 19 April 2023.

A notice pursuant to section 48 'Duty to publicise' of the Act was published nationally in The Guardian and London Gazette on 12 April 2023 alongside Fishing News and Lloyd's List on 19 April 2023. Locally, a notice pursuant to section 48 was published in The Daily Post (Welsh and English) and Isle of Man Courier (English only)

for two consecutive weeks on 12 and 19 April 2023, alongside Golwg (Welsh only) for two consecutive weeks on 13 and 20 April 2023.

The Project is an Environmental Impact Assessment ("EIA") development for the purposes of The Infrastructure Planning (EIA) Regulations 2017. We are therefore consulting on contents of the EIA, including the potential environmental impacts associated with the Project. This information is in the Preliminary Environmental Information Report (PEIR) – a website link will be provided to consultees for the purposes of complying with section 42 of the Act.

The deadline stated in the consultation correspondence (and on the section 48 Notice) for the receipt of comments and representations on the proposed Application is 23:59 on 4 June 2023.

The Consultation Documents that are to be provided to the persons specified in the Act, and regulations made pursuant to the Act are contained on a download link that accompanies their Consultation Letter and include:

- Statutory Consultation Brochure, which outlines the Project, consultation activities and summarises the PEIR.
- Statutory Consultation Feedback Form, which provides a structured method for consultees to provide their feedback.
- Statement of Community Consultation ("SoCC"), which sets out how the Applicant will consult local communities during the Applicant's statutory consultation.
- Statutory Consultation Poster, which explains how people can take part in the consultation, attend an event and provide feedback.
- A copy of the notice published in accordance with section 48 of the PA 2008 and Regulation 13 of the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2017.
- PEIR, which summarises the potential environmental effects of the project.
- PEIR Non-Technical Summary, which summarises the PEIR's key points in a more succinct manner.
- Draft Development Consent Order.

The above items, along with a copy of the Applicant's section 42 letter and section 47 notice, can also be found on the Project website given below for at least the duration of

the consultation.

Links to all of the above documents are provided to the Secretary of State in this notice, in accordance with the requirements of section 46 of the PA 2008. They are all available for the Secretary of State to view, care of the Planning Inspectorate, via this link: www.morganandmona.com.

Printed copies of the Statutory Consultation Brochure, Statutory Consultation Feedback Form, PEIR Non-Technical Summary ("NTS") and SoCC, will be available to view for the duration of consultation at the reference locations listed below:

| Reference location | Opening times* |
| --- | --- |
| Amlwch Library<br>Parys Road<br>Amlwch<br>Anglesey<br>LL68 9EA | Sunday-Monday: CLOSED<br>Tuesday: 9:30am-12:30pm, 2pm-5pm<br>Wednesday: 9:30am-12:30pm<br>Thursday: 2pm-7pm<br>Friday: 9:30am-12:30pm<br>Saturday: 9:30am-12:30pm |
| Rhyl Library<br>Church Street<br>Rhyl<br>LL18 3AA | Monday: 9:30am-6pm<br>Tuesday – Friday: 9:30am-5pm<br>Saturday: 9:30am-12:30pm<br>Sunday: CLOSED |
| Llandudno Library<br>Mostyn Street<br>Llandudno<br>LL30 2RP | Monday – Wednesday: 9am-5:30pm<br>Thursday: 10am-7pm<br>Friday: 9am-5:30pm<br>Saturday: 9:30am-3pm<br>Sunday: CLOSED |
| Bangor Public Library<br>Gwynedd Road<br>Bangor<br>LL57 1DT | Monday – Tuesday: 9:30am-6:30pm<br>Wednesday – Friday: 9:30am-5pm<br>Saturday: 9:30am-1pm<br>Sunday: CLOSED |
| Henry Bloom Noble Library<br>8 Duke Street<br>Douglas<br>Isle of Man<br>IM1 2AY | Monday – Wednesday: 8:30am-5pm<br>Thursday: 10am-7pm<br>Friday: 8:30am-5pm<br>Saturday: 9am-4pm<br>Sunday: CLOSED |
| Ramsey Town Library<br>Parliament Square<br>Ramsey<br>Isle of Man<br>IM8 1RT | Monday – Thursday: 9am-4:30pm<br>Friday: 9am-4pm<br>Saturday: 9am-4:30pm<br>Sunday: CLOSED |

* Opening times for these venues are correct at the time of publication. Please confirm that times listed are still correct directly with the venues if you are planning a visit.

I look forward to receiving the Secretary of State's acknowledgement of the Applicant's proposed application pursuant to section 46 'Duty to notify Secretary of State of proposed application' of the Act. In the meantime, should you have any questions please do not hesitate to contact me at: info@monaoffshorewind.com.

Yours sincerely

Richard Haydock
Project Director
Mona Offshore Wind Limited